# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Chwefror 2021

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), Councillor R Jeavons, P Cockeram, D Harvey, D Mayer, Councillor R Truman, D Davies and M Rahman

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr G Giles

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Cynghorydd Giles

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Ni dderbyniwyd yr un

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diweddaf**

Cadarnhawyd cofnodion 8 Ionawr fel rhai cywir

4 **Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cabinet ar y Strategaethau Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys. Yr oedd y rhain eisoes wedi eu hadolygu gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ac yr oedd eu sylwadau a'u hymatebion wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Yr oedd yr adroddiad yn cynnwys y Strategaethau Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys a oedd yn gwneud y canlynol (i) cadarnhau'r rhaglen gyfalaf, fel rhan o'r Strategaeth Gyfalaf a (ii) y gwahanol derfynau benthyca a dangosyddion eraill oedd yn llywodraethu rheoli gweithgareddau benthyca a buddsoddi'r Cyngor, fel rhan o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Dywedodd yr Arweinydd, er bod y Cabinet yn gwneud penderfyniadau am yr hyn y gellid ei wario ar brosiectau cyfalaf, mai'r Cyngor llawn oedd yn cymeradwyo'r 'terfynau benthyca'. Yr oedd llawer o brosiectau yn cael eu cyllido gan grantiau cyfalaf, derbyniadau cyfalaf ac arian penodol wrth gefn nad oedd yn cael effaith ar lefelau benthyca, ond lle'r oedd angen benthyca, fod angen gosod y rhaglen o fewn y terfynau hynny. Yr oedd hwn yn faes pwysig o lywodraethiant rheoli ariannol oherwydd bod lefelau benthyca, unwaith iddynt gael eu gosod, yn cloi'r Cyngor i mewn i atebolrwydd tymor hir am gostau refeniw o ran darpariaeth ar gyfer

ad-dalu'r benthyciadau hynny (costau MRP) a chostau llog ar fenthyciadau allanol, oedd, gyda'i gilydd, yn cael eu galw yn 'gostau cyllido cyfalaf'.

Yr oedd y naill strategaeth a'r llall yn ofynion Cod Cynghorus CIPFA sy'n gosod allan y gofynion ar eu cyfer ac yn sicrhau, o fewn y fframweithiau yn y dogfennau hyn, fod y cynlluniau gwariant cyfalaf yn:

- **Fforddiadwy -** gwariant a rhaglenni cyfalaf o fewn terfynau cynaliadwy ac y gellir gwneud lle iddynt o fewn lefelau gwario cyfredol a'r rhai a ragwelir at y dyfodol.
- **Darbodus –** mae angen i Gynghorau osod terfynau benthyca a elwir yn 'weithredol' a 'therfynau awdurdodedig' sy'n adlewyrchu eu cynlluniau cyfalaf fforddiadwy a'u costau cyllido. O ran gweithgareddau buddsoddi, rhaid i Gynghorau ystyried y cydbwysedd rhwng diogelwch, hylifedd ac elw sy'n adlewyrchu eu hawch hwy am risg ond sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd dros elw.
- **Cynaliadwy –** rhaid i gynlluniau cyfalaf y Cyngor a chost refeniw cyllido benthyciadau/dyledion cyfredol a'r dyfodol a gymerir ar gyfer hynny fod yn gynaliadwy o ran cyllid cyffredinol y Cyngor a'i effaith ar hynny.

Cafodd y materion hyn eu hadolygu a chynhwyswyd sylwadau'r Pennaeth Cyllid yn ei adran ym mharagraff 31 ymlaen.

<u>Strategaeth Trysorlys a'r rhaglen gyfalaf</u>
Estynnodd rhaglen gyfalaf y Cyngor at 2024/25 (sef y rhaglen gyfalaf bum-mlynedd wreiddiol hyd at 2022/23 a estynnwyd o ddwy flynedd ar gyfer prosiectau yr oedd eu cwblhau yn mynd y tu hwnt i'r pum mlynedd). Yr oedd yn rhaglen gyfalaf sylweddol, ac yn cynnwys £211.4m o brosiectau a gymeradwywyd eisoes, ochr yn ochr â buddsoddiadau newydd megis y benthyca ar gyfer gwariant Dinas-Ranbarth Caerdydd o £17.3m, £19.7m ar gyfer y cynllun hamdden newydd, a £4.5m o fenthyca pellach nas ymrwymwyd ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, oedd yn dod â chyfanswm buddsoddiad o £252.9m ar gyfer y rhaglen yn diweddu 2024/25.

Yr oedd hyn yn fuddsoddiad mawr i seilwaith allweddol y ddinas. Ymysg prosiectau allweddol mae:

- Ein cynllun hamdden newydd yng nghanol y ddinas - £19.7m. Byddai hyn yn paratoi'r ffordd hefyd am Goleg Gwent newydd, a'r ddau yn dod â mwy o bobl a bywiogrwydd, oedd ei fawr angen, i ganol y ddinas.
- Buddsoddi i adnewyddu ac adfer Pont Gludo'r ddinas – bron i £13m.
- Ehangu, moderneiddio a chynnal a chadw ein hadeiladau ysgolion, sef y rhan fwyaf o'n buddsoddiad o £101m yn y rhaglen hon mewn addysg ac ysgolion.
- Dros £25m i Ddinas-Ranbarth Caerdydd oedd yn galluogi lefel enfawr o ddatblygu economaidd ar hyd a lled ein rhanbarth, fyddai o fudd i Gasnewydd a'r rhanbarth ehangach.
- Dros £7m i'n prosiectau adfywio a rhai canol y ddinas, gyda chyllid ychwanegol wedi ei gynnwys yn ein cyllideb refeniw i barhau ac ehangu wrth i ni 'adeiladu'n well' ers y 12 mis a aeth heibio.

Yr oedd gwariant cyfalaf y talwyd amdano trwy ddyled wedi cynyddu'r angen i fenthyca'n allanol. Sbardun arall i'r angen i fenthyca'n allanol oedd y gosty7ngiad yn y gallu i 'fenthyca'n fewnol' wrth i arian wrth gefn a glustnodwyd gael ei ddefnyddio, oedd yn golygu yn ei dro fod angen benthyca'n allanol i wneud iawn am hyn. Yr oedd hyn yn arbennig o wir am y Cyngor hwn oedd â lefel; uchel o 'fenthyca mewnol', sydd bellach yn gostwng dros y tymor canol i'r tymor hir. Yr oedd y Cyngor felly wedi ymrwymo ac yr oedd gofyniad i fod yn fenthycwr net dros y tymor hir term.

Am y tair blynedd oedd weddill o'r rhaglen gyfalaf gyfredol tan 2024/25, yr oedd lefel y benthyca i hwyluso'r rhaglen gyfalaf gyfredol yn sylweddol, gyda benthyca allanol yn codi o

amcangyfrif o £164m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon i £234m yn 2024/25, cynnydd o dros £70m. Rhagwelwyd y byddai cyfanswm yr ymrwymiad am fenthyca allanol tua £284m. Dangosir hyn yn nhabl 2 yr adroddiad.

Arweiniodd yr ymrwymiad i gynyddu benthyca allanol at gynnydd mewn costau cyllido cyfalaf fel y gwelir yn nhabl 3 yr adroddiad, ac y mae'n dangos cynnydd sylweddol mewn costau cyllido cyfalaf o 2020/21.  Yr oedd y costau hyn i'w cynnwys yn CCTC y Cyngor. Byddai costau yn dal i gynyddu yn y tymor canol i'r tymor hir. O gymharu ag awdurdodau tebyg, yr oedd canran y costau cyllido cyfalaf fel cyfran o gyfanswm refeniw net y  Cyngor yn uchel. Yr oeddem wedi talu'n llawn am y costau cyllido cyfalaf oedd eu hagen i gwblhau'r rhaglen gyfalaf gyfredol, ac yr oedd hyn yn fater allweddol o ran dangos fforddiadwyedd. Gan fod cyllideb net y Cyngor hefyd yn cynyddu'n sylweddol, yr oedd cyfran cyllideb net y Cyngor a neilltuwyd i hyn yn aros yn fras yr un fath, ac nid oedd twf is neu isel posib mewn cyllid yn risg newydd: y mae'n bodoli heddiw. Felly, o safbwynt cynaliadwyedd, yr oedd cost cymharol uchel y gyllideb hon yn her ac yn risg, ond nid yn uwch nac yn fwy newydd na'r sefyllfa bresennol.

<u>Strategaeth Trysorlys</u>
Yr oedd hyn yn ymdrin â chynlluniau ar gyfer gweithgareddau benthyca a buddsoddi'r Cyngor. Byddai'r gallu i fenthyca'n fewnol yn gostwng dros y tymor canol i'r tymor byr. Yn 2021/22 yr oedd disgwyl i'r Cyngor fenthyca'n allanol, i ad-dalu benthyciadau oedd yn aeddfedu ac i dalu am fwy o wariant cyfalaf yn y rhaglen gyfalaf bresennol; byddai'n  cadw hynny o 'fenthyca mewnol' ag sydd modd ac yn cynyddu benthyca allanol gwirioneddol yn unig pan oedd angen i reoli ei ofynion am arian. Fodd bynnag, lle teimla'r Cyngor fod hyn yn angenrheidiol i liniaru risg cynnydd mewn cyfraddau llog, gall fenthyca'n gynnar er mwyn sicrhau cyfraddau llog o fewn y cyllidebau refeniw y cytunwyd arnynt. Byddai hyn yn cael ei wneud yn unol â chyngor gan ein Hymgynghorwyr Trysorlys.

Nod yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian oedd cadw cydbwysedd priodol rhwng risg ac elw, gan leihau'r risg o golledion trwy ddiffygdalu, a'r risg o gael incwm annerbyniol o isel o fuddsoddi. O ystyried y risg gynyddol a'r elw isel iawn o fuddsoddiadau tymor-byr ansicredig o fanciau, nod yr Awdurdod oedd arallgyfeirio i ddosbarthiadau ased fyddai'n rhoi mwy o elw yn ystod 2021/22, a chafodd hyn ei oedi oherwydd yr hinsawdd economaidd presennol o ganlyniad i'r pandemig.  Yr oedd hyn yn arbennig o wir am yr amcangyfrif o £10 miliwn oedd ar gael ar gyfer buddsoddi tymor-hwy. Mae holl arian dros ben presennol yr Awdurdod wedi ei fuddsoddi ar hyn o bryd mewn adneuon banc ansicredig tymor-byr ac awdurdodau lleol. Byddai'r strategaeth o arallgyfeirio i ddosbarthiadau ased fyddai'n rhoi mwy o elw  yn cael ei rhoi ar waith yn y flwyddyn i ddod.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

Nododd y Cynghorydd Rahman fod ymrwymo i'r gwariant cyfalaf yn ddull cynaliadwy o leihau'r risg, o gadw mewn cof Covid a Brexit.  Fel Aelod Cabinet dros Asedau, yr oedd hyn nid yn unig yn fuddsoddiad yn y seilwaith presennol ond yn nyfodol y ddinas, gan gynnwys y Ganolfan Hamdden newydd. Anogodd y Cynghorydd Rahman ei gydweithwyr i edrych lle'r oedd yr arian yn cael ei wario; yr oedd gan ysgolion yn arbennig gryn fuddsoddiad.  Golygai'r cyfleuster trafnidiaeth yn y ddinas a'r bont droed dros Orsaf Reilffordd Casnewydd fod y Cyngor yn gweithredu i gyflawni dros y gymuned trwy gadw addewidion a gweithio tuag at hyn. Yr oedd ymrwymiad i leihau'r ôl troed carbon, buddsoddi yn System Oleuo'r Felodrom i'w gwneud yn fwy cynaliadwy, a bod yn garbon niwtral at y dyfodol yn rhan o ystyriaeth y gyllideb.

Ystyriodd y Cynghorydd Truman fod yr adroddiad yn newyddion da o ran dangos y ffordd ymlaen i'r cyngor. Yr oedd y buddsoddiad a amlinellwyd yn yr adroddiad yn ymdrin â phopeth. Soniodd hefyd am y gwaith caled a aeth i hyn, a diolchodd i'r holl swyddogion a chydweithwyr am eu cyfraniad i'r adroddiad.

Diolchodd y Cynghorydd Cockeram i'r Arweinydd am gyflwyniad ardderchog. Yr oedd y buddsoddiad o £4M mewn cartrefi preswyl i blant yn caniatáu i'r cyngor beidio â dibynnu ar leoliadau allsirol yn y sector, a byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar iechyd y plant, trwy eu cymryd adref.

**Penderfynwyd:**
Fod y Cabinet yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r isod:

§ Y Strategaeth Gyfalaf (Atodiad 2), gan gynnwys y rhaglen gyfalaf gyfredol ynddi (a ddangosir ar wahân yn Atodiad 1) a'r gofynion/terfynau benthyca sydd eu hangen i gyflwyno'r rhaglen gyfalaf gyfredol.
§ Y Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Dangosyddion Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi a'r Isafswm Darpariaeth Refeniw (IDR) am 2021/22. (Atodiad 3).

Fel rhan o'r uchod, nododd y Cabinet:

§ Y ddyled gynyddol a chost refeniw yn sgil hyn o ran cyflwyno'r rhaglen gyfalaf bresennol, ac oblygiadau hyn yn y tymor byr a'r tymor canol o ran fforddiadwyedd, darbodaeth a chynaliadwyedd.

§ Argymhellion y Pennaeth Cyllid i'r Cyngor, fod angen cyfyngu benthyca i'r hyn sydd wedi ei gynnwys yn y rhaglen gyfalaf gyfredol a'r dangosyddion cynghorus a argymhellwyd am derfynau benthyca i wneud hyn.

§ Y tu hwnt i gyfnod y rhaglen gyfalaf gyfredol, yr oedd heriau ariannol posib o ran fforddiadwyedd a chynaliadwyedd, ond adolygir y rhain yn nes at gychwyn y rhaglen newydd yng nghyd-destun lefelau cyllido a sefyllfa gyllidebol y Cyngor.

5 **Cyllideb Refeniw a Chynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC): Cynigion Terfynol**

Cyflwynodd yr Arweinydd y Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r adroddiad cyllideb refeniw 2021/22. Dyma un o adroddiadau mwyaf arwyddocaol y Cyngor, ac oedd angen rhoi ystyriaeth ofalus iddo.

Y mae'n benllanw rhyw chwe mis o waith caled o gytuno ar ragdybiaethau'r gyllideb i fod yn sail i'n cynllunio. Wedi cytuno ar gynigion manwl y gyllideb, cafwyd cyfnod pellach o fireinio a datblygu yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am y grant cynnal incwm. Gwnaeth y Cyngor hyn dan amodau anodd, gan weithio o bell, mewn ansicrwydd mawr am ddatblygu cyllidebau yn yr amser heriol hwn. Ar y pwynt olaf hwn, yn hwyr iawn ym mis Rhagfyr y cafodd y Cyngor wybod am ei Grant Cynnal Incwm; rhyw ddeufis yn hwyrach na'r arfer, ac o edrych ymlaen, yr oedd rhagolygon cyllido'r sector cyhoeddus yn ansicr, o gofio fod cyllideb un flwyddyn wedi cymryd lle'r Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr a fwriadwyd ar gyfer 2020. Yr ydym yn aros am fwy o wybodaeth gan Ganghellor y DU am y modd y byddai'n delio â dyled gynyddol y DU ac effaith hynny ar gyllido'r sector cyhoeddus, a bydd hyn yn cynnwys y llwybr presennol allanol o gyfnod clo cenedlaethol, a sut y bydd y DU, a gweddill y byd yn wir, yn adfer o bandemig Covid. Y mae'r sefyllfa yn dal yn fregus.

Ar waethaf hyn oll, fe gynhyrchwyd cyllideb, a diolchodd yr Arweinydd i'w chydweithwyr yn y Cabinet a swyddogion y Cyngor a weithiodd yn galed i gyrraedd y pwynt hwn; bu'n ymdrech enfawr gan bawb.

Atgoffodd yr Arweinydd, y bydd y weinyddiaeth yn cymryd penderfyniadau ar lle i wario adnoddau'r Cyngor, a rhan allweddol o hynny oedd lefel Treth y Cyngor fyddai ei angen i dalu am hynny, ynghyd â'r Grant Cynnal Incwm. Nid oedd Treth y Cyngor ond tua 24% o gyllid refeniw'r Cyngor, ond yn rhan hanfodol, er hynny. Y Cyngor llawn fyddai'n penderfynu ar Dreth y Cyngor, a byddant yn adolygu ac yn ystyried argymhellion y Cabinet.

Ein cyllid
Cynyddodd Grant Cynnal Incwm y Cyngor yn sylweddol, o bron i £13m, yn bennaf oherwydd cywiriad yn yr amcangyfrifon poblogaeth a oedd yn cyfrif am ran helaeth o ddosbarthiad y grant i Gynghorau. Buom yn ymgynghori ar gynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor, a ychwanegodd £3.2m i gyllideb bosib y flwyddyn nesaf. Cynyddodd cyfanswm ein cyllideb ddrafft o £15.9m.

Arbedion y gyllideb
Yr oeddem wedi cynnwys £2.7m o gynigion am arbedion newydd yn ein cyllideb ddrafft. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf, sef £1.8m, yn effeithio ar impact on wasanaethau, ac yr oedd eu gweithredu yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ni fuddsoddi mwy mewn gwasanaethau rheng-flaen i'r cyhoedd a'r ddinas. Buom yn ymgynghori ar gynigion a fyddai yn ein barn ni yn gwella gwasanaethau ac a oedd yn rhan o drawsnewid y gwasanaethau hynny yn ehangach. Byddai canlyniadau'r ymgynghori cyhoeddus yn cadarnhau hyn, gan eu bod yn cytuno'n gryf â'r cynigion ac eithrio un – y bwriad i gynyddu treth y cyngor. Yr oedd hwn yn ganlyniad cadarnhaol iawn am ei fod yn dangos ein bod yn gwneud y pethau iawn. Nid oedd y codiad yn Nhreth y Cyngor yn boblogaidd yn yr ymgynghoriad, ac yr oeddem yn sylweddoli hynny, a bod angen ail-ystyried hyn yn yr hinsawdd presennol. Dywedodd yr Arweinydd fod y cyhoedd wedi dweud eu barn, a'n bod ni wedi gwrando.

Y sefyllfa bresennol a sut y byddwn yn defnyddio'r 'balans sydd mewn llaw'
Fel y dangosodd yr adroddiad yn Nhabl un, yr oedd gennym £2.8m o adnoddau ar gael mewn llaw yng nghyfnod y gyllideb ddrafft, ac ychwanegwyd arbedion effeithlonrwydd pellach ers hynny, fel y gwelir yn Nhabl un yr adroddiad. Mae'r balans mewn llaw o adnoddau i'w dyrannu yn awr yn £3.98m.

Mae crynodeb isod o'r modd y caiff yr elfen derfynol hon ei dyrannu a'i defnyddio gyntaf.

| | **2021/22 £'000** |
|---|---|
| **Balans diwygiedig mewn llaw** | **(£3,988k)** |
| **Buddsoddiadau newydd:** | |
| **GOFAL CYMDEITHASOL**<br><br>**Darparu ar gyfer risg bosib costau uwch yn ein sector Gofal Cymdeithasol, yn sgîl heriau o ddod allan o Covid a Brexit, sef £828k, y talwyd amdano yn rhannol gan gynnydd yn ein 'Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol'. Yr oedd gwir botensial gan y ddau i greu pwysau cost gwirioneddol yn y maes hwn, a byddai hyn yn help i sicrhau bod cyllidebau yn gadarn, yn helpu i liniaru'r risgiau hynny, a sicrhau ein bod yn talu am y gofal gorau i drigolion.**<br><br>**Byddai hyn yn sefydlogi ac yn helpu recriwtio i'n timau gofal cymdeithasol iechyd meddwl oedolion, sydd yn faes anodd o ran cadw a recriwtio. Byddai darparu £40k am hyn yn caniatáu i ni ei wneud mewn maes gwaith cynyddol heriol a phwysig.**<br><br>**Mae angen i ni fuddsoddi yn ein cyllidebau i blant sy'n derbyn ac amddiffyn plant oherwydd y galw cynyddol, a bydd hyn yn costio £116k**<br><br>**Buddsoddiadau ychwanegol yw'r rhain yn ein cyllidebau gofal cymdeithasol, ac y mae'n dangos ymrwymiad y weinyddiaeth i'r maes hwn, ei alwadau a'i heriau. Mae gofalu am aelodau mwyaf bregus ein cymunedau yn flaenoriaeth.** | £828k<br>(£500k)<br><br>£40k<br><br>£116K |
| **BLAENORIAETHAU ERAILL** | £911k |

| | |
|---|---|
| **Byddwn yn buddsoddi £911k mewn nifer o anghenion sy'n cael blaenoriaeth. Yn eu plith mae:**<br><br>- **gallu yn ein tîm rheoli prosiect a gwella busnes i gefnogi gwasanaethau gyda phrosiectau fydd yn newid sefydliadau a gwasanaethau**<br>- **gallu yn ein swyddogaethau i gyrraedd uchelgais y ddinas ar ddatblygu cynaliadwy, priffyrdd a mentrau dad-garboneiddio. Byddai hyn yn galluogi'r cyngor i gyflwyno prosiectau allweddol gan gynnwys unrhyw brosiectau a mentrau newydd sy'n deillio o adolygiad Burns**<br>- **datblygu ein gallu i gynllunio gweithlu. Byddai hyn yn cynnwys datblygu a gweithredu polisi am fwy o hyfforddi, prentisiaethau a mathau tebyg o hyfforddiant yn ein gweithlu ac yn sicrhau y bydd gan ein trigolion gyfle i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth, profiad a gyrfaoedd gyda'r Cyngor**<br>- **darpariaeth i ddatblygu a rhoi ar waith gynllun a mentrau i greu mwy o falchder yn ein dinas, dod o hyd i ffyrdd o gefnogi cymunedau lleol a chysylltu ein cymunedau a'r ddinas yn ehangach.** | |
| ADFYWIO A CHEFNOGAETH ECONOMAIDD I GANOL Y DDINAS<br><br>**Mae sefyllfa canol y ddinas, fel llawer o rai eraill, yn dal yn heriol, a bydd yn parhau yn fregus am beth amser. Byddwn yn gwneud darpariaeth o £1.9m yn ein cyllideb fel y gallwn barhau â phrosiectau adfywio allweddol megis adnewyddu'r farchnad ganolog a phrosiectau mawr eraill. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i ganol y ddinas a'r agwedd bositif, yr esiampl a'r arweiniad y mae angen i Gyngor y Ddinas roi.**<br><br>**Mae hyn yn rhan o becyn ehangach o fuddsoddiad i gefnogi datblygiad economaidd y ddinas ac adfywio canol y ddinas, yn ein rhaglen gyfalaf a'r hyn a gyhoeddwyd eisoes yn ein cyllideb ddrafft ym mis Ionawr.** | £1,820k |
| TYNNU ALLAN GYNNIG ARBEDIAD STR2122/02 – **Taliadau am wastraff heb fod yn wastraff cartref**<br><br>**Mae'r Cabinet wedi ystyried yr holl gynghorion ac adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus, ac ni fyddant yn cyflwyno taliadau am wastraff heb fod yn wastraff cartref a gymerir i'r ganolfan ailgylchu gwastraff cartref (CAGC).** | £20K |
| TRETH Y CYNGOR<br><br>**Ymgynghorodd y Cabinet ar gynnydd o 5% yn Nhreth y Cyngor. Casnewydd sydd ag un o'r cyfraddau isaf yng Nghymru o hyd, ac yn wir yn y DU. Mae'n golygu gostyngiad o £9m mewn cyllid o gymharu â'r gyfradd gyfartalog yng Nghymru, ac fe gaiff hyn effaith negyddol ar y gwasanaethau y gallwn eu cyflwyno. Fodd bynnag, gwnaeth y Cabinet yn glir eu bod am wrando ar y trigolion. Maent yn sylweddoli fod pob Casnewydd yn mynd trwy gyfnod anodd, ac yn cydnabod yr ansicrwydd. Felly cytunodd y Cabinet i leihau'r cynnydd arfaethedig mewn Treth Cyngor i 3.7% a bydd hyn yn costio £753k.** | £753k |
| **Gweddill sydd ar ôl i'w ddyrannu** | **£0** |

<u>Sut ydym ni wedi buddsoddi ein hadnoddau ychwanegol?</u>
Y tri phrif faes oedd:

*I'n hysgolion*, yr oedd y gyllideb yn caniatáu bron i £5m o arian ychwanegol. Yr oedd hyn yn cynnwys y cynnydd mewn costau a aseswyd ar gyfer ein hysgolion, a bwriadwn gyllido hynny'n llawn, hyd at y ddarpariaeth sydd gennym yma. Gal bod hyn yn cynnwys amcangyfrif am unrhyw godiadau cyflog, bydd yr elfen hon yn cael ei chadw a'i hystyried pan fyddwn yn

gwybod beth fydd y sefyllfa derfynol. Bwriad y Cabinet oedd cwrdd **o leiaf** â chyfanswm y cynnydd mewn costau, hyd at y codiadau yn y gyllideb a gynhwysir yma. Byddai angen i ysgolion gyda diffygion yn eu cyllidebu neu sydd wedi gorwario ar eu cyllideb eleni orfod datrys y problemau hyn gyda chynlluniau adfer, ac yr oedd y swyddogion yn gweithio'n galed gydag ysgolion ar hyn, gan wneud cynnydd da. Mae ein hanes ar gyllido ysgolion yn dal i brofi ein bod yn rhoi blaenoriaeth iddynt. Heb gynnwys unrhyw gynnydd mewn grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, sydd hefyd wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf, yr ydym wedi cynyddu cyllid craidd ysgolion o ryw £15m dros y tair blynedd ddiwethaf, cynnyd blynyddol o 5% ar gyfartaledd. Yr oedd rhan o hyn ar gyfer ehangu ysgolion a rhai newydd wrth i'r ddinas dyfu, ond hefyd i sicrhau talu am gynnydd mewn costau.

*Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol* lle mae'r galw wedi cynyddu, ac yr ydym yn darparu bron i £2.5m o gyllid ychwanegol, dros ben y cynnydd mewn tâl a phrisiau. Yn 2021/22, byddwn yn buddsoddi bron i £2.5m mewn gwasanaethau plant ac oedolion. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth i gwrdd â chynnydd mewn costau yn ein cartrefi gofal a gwasanaethau cartref oherwydd risgiau Covid a Brexit.

*Yr ydym hefyd wedi ymrwymo i 'adeiladu'n ôl yn well'* wrth i ni helpu'r ddinas i adfer o 12 mis o effeithiau'r pandemig. Cafwyd nifer o gynigion i wneud hyn. Yn gyntaf, yr oedd y Cabinet yn bwriadu buddsoddi ychydig dros £2m i dalu am y rhaglen gyfalaf. Yr oedd adroddiad arall ar agenda'r cyfarfod hwn yn ymdrin â rhaglen gyfalaf y Cyngor, ond dangosodd, ymysg prosiectau eraill, ein bod yn buddsoddi yn ein hysgolion, canol y ddinas, seilwaith diwylliannol allweddol fel y Bont Gludo, ac wrth gwrs, cyfleuster hamdden newydd cyffrous fyddai'n paratoi'r ffordd i gael campws dysgu newydd yng nghanol y ddinas. Yn ail, yr ydym wedi darparu £1.8m i dalu am fentrau a phrosiectau adfywio yng nghanol y ddinas. Yn drydydd, fel y cyhoeddais, bwriadwn wneud mwy o ymdrech i gynyddu nifer ein prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi a chynlluniau eraill yn y Cyngor. Byd hyn yn rhoi cyfle gwych i'n trigolion gael gwaith a hyfforddiant ac yn helpu'r Cyngor dyfu a datblygu'r gweithlu.

Yr oedd y polisi manwl bron wedi ei gwblhau, a bydd yr Arweinydd yn cyhoeddi hyn mor fuan ag y gallai. Yn bedwerydd, byddai'r Cabinet yn buddsoddi mewn mwy o adnoddau i'r prosiectau datblygu cynaliadwy, fyddai hefyd yn cynnwys adolygiad Burns ar draffig. Rhoddir blaenoriaeth i'r 'agenda werdd a dad-garboneidio', a byddai'r adnoddau yn dechrau creu'r gallu oedd ei angen i gydgordio a chyflwyno prosiectau priodol ar draws y Cyngor, i gyfrannu at hyn. Yn olaf, mae'r Cabinet yn buddsoddi adnoddau i farchnata'r ddinas a chyflwyno mwy o ddigwyddiadau a mentrau lleol, fel y gallai'r ddinas godi ei phroffil i bawb.

Rhan allweddol o'r maes olaf hwn yw defnyddio adnoddau unwaith-am-byth. Yr oedd cyllido ein gofynion cyllidebu cyfalaf hyd at ddiwedd cyfnod y rhaglen gyfalaf bresennol i gyd yn 2021/22 yn bwysig ac yn angenrheidiol. Byddai hefyd, dros y 2-3 blynedd nesaf, yn cynhyrchu arian unwaith-am-byth o ryw £3m. Ynghyd â'r tanwariant a ragwelir gan y Cyngor ar gyllideb eleni, dylai roi bod i 'bot' o arian unwaith-am-byth fyddai'n cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gyllideb refeniw hon a'i blaenoriaethau. Byddai'n cael ei ddefnyddio hefyd i fuddsoddi mewn prosiectau arbennig i helpu gyda'r amcanion datblygu cynaliadwy a amlygwyd, a byddai hefyd yn gwella'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys clirio'r hyn sy'n ddolur i'r llygad, na allai'r cyllidebau presennol dalu amdanynt, a gwella mannau gwyrdd, sydd yn bwysicach nac erioed. Y mae'r swyddogion yn datblygu cynlluniau am y rhain a byddai mwy o fanylion yn cael eu cyhoeddi pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau, a mwy o sicrwydd am yr adnoddau hyn yn y gwanwyn. Rhwng yr arian craidd sydd yn cael ei ddarparu i greu gallu, y rhaglen gyfalaf, a'r arian unwaith-am-byth, yr oedd yr Arweinydd yn hyderus y gellid cael effaith wirioneddol i greu mwy o falchder yn ein dinas a'i gwneud yn lle gwell.

Yr oedd y gyllideb yn ymdrin â'r sefyllfa bresennol o ran lle'r oedd angen gwasanaethau a buddsoddiad, ac yn edrych ymlaen a dechrau cynllunio ar gyfer y blaenoriaethau am yr amgylchedd. Y mae hyn yn cynnwys nid yn unig yr agenda ehangach am yr hinsawdd a dad-garboneiddio, ond hefyd amgylchedd y ddinas yn nes at adref, cymdogaethau, parciau a

mannau eraill. Byddai hyn yn cael ei wneud gyda Threth Cyngor is, oedd yn bwysig ar yr adeg hon.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

Dywedodd y Cynghorydd Jeavons fod y Tîm Gwastraff yn effeithiol iawn ac yn delio â thipio anghyfreithlon fel rhan o'i waith. Byddai'r buddsoddiad o gymorth yma ac yn helpu gyda'r dyletswyddau statudol, oedd yn cynnwys:

- Symud gwastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon ar dir cyhoeddus/priffordd a fabwysiadwyd ( nid yw symud gwastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon ar dir preifat yn gyfrifoldeb Cyngor Dinas Casnewydd, ond y tirfeddiannwr.)
- Ymchwilio i dipio anghyfreithlon, a chamau gorfodi, sy'n cynnwys HCB, erlyniadau
- Cario a gwaredu gwastraff anghyfreithlon gan gynnwys gwiriadau dyletswydd o ofal
- Monitro casgliadau gwastraff cartref ac ymwneud â'r trigolion

Yn ychwanegol:

- Gwaith partneriaeth gyda LIC /Cyfoeth Naturiol Cymru ac KWT - meincnodi – rhannu arferion da
- Cyflwyno digwyddiadau/dyddiau gweithredu penodol gyda Heddlu Gwent /Gwasanaeth Tân ac Achub DC i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Cefnogi grwpiau gwirfoddol codi sbwriel
- Rydym yn croesawu gweithgareddau codi sbwriel, sydd yn beth cadarnhaol i gymunedau a'r amgylchedd
- Mae grwpiau gwirfoddol yn cael eu cefnogi gan CDC, ond:
  - § Byddwn yn gofyn i grwpiau gwirfoddol gydymffurfio a'r rheolau sydd mewn cytundebau cyn-archebu/casglu sydd ar gael ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd i wneud y broses yn ddiwnïad
- Mae rhai grwpiau yn anwybyddu'r rheolau, sydd:
  - § Yn peryglu eu hiechyd a'u diogelwch
  - § Yn creu problemau i'r Cyngor a mudiadau eraill sy'n delio a sbwriel/tipio anghyfreithlon/ ymddygiad gwrthgymdeithasol/erlyn posib

Yr oedd peth o hyn yn cynnwys:

- Peidio â chadw pellter cymdeithasol yn ôl canllawiau'r llywodraeth yn y cyfnod clo
- Peidio â dilyn trefniadau iechyd a diogelwch
- Codi sbwriel ar dir preifat
- Didol gwastraff yn ddeunydd i'w ailgylchu
- Bagiau yn unig – dim gwastraff swmpus
- Dim nodwyddau na deunydd miniog
- Pwyntiau casglu diogel, sydd ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd, a dim bagiau i'w casglu ar ffyrdd a therfyn cyflymder dros 50mya

Mae sbwriel/tipio anghyfreithlon yn fater i ni i gyd ac anogaf bobl i waredu eu gwastraff yn gyfrifol.

Nododd y Cynghorydd Truman fod hon yn gyllideb oedd yn gwrando, o gofio'r gostyngiad mewn treth cyngor i'r cyhoedd. Yr oedd angen buddsoddi yng nghanol y ddinas. Y mae'r gyllideb yn newyddion da i ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol, ac yn ymdrin hefyd ag eiddo gwag am y tro cyntaf, sydd yn ardderchog.

Adleisiodd y Cynghorydd Harvey sylwadau'r Cynghorydd Truman am dreth y cyngor, gan ddweud ei fod yn ostyngiad mawr, er y bu adwaith negyddol gan drigolion am yr ymgynghoriad. Yr oedd hefyd yn canmol athrawon, staff ategol, staff swyddfeydd cefn a phawb fu'n helpu i redeg yr ysgolion yn rhithio, heb roi'r gorau i weithio, a darparu cefnogaeth TG i ddisgyblion, ar waethaf y rhewi ar gyflogau'r sector cyhoeddus. Ychwanegodd y Cynghorydd Harvey y dylai trigolion Casnewydd edrych yn fanwl ar y

gyllideb, oedd yn drylwyr iawn, a diolchodd i'r Arweinydd am gyllideb dda dan yr amgylchiadau.

Ystyriodd y Cynghorydd Davies yr holl amcanion lles y llwyddwyd i'w cyrraedd yn yr adroddiad hwn, a'r ffaith fod arian wedi ei ddyrannu'n ofalus i gwrdd ag anghenion. Rhoddwyd ystyriaeth i drigolion bregus adeg Covid. Yr oedd dyletswydd erbyn 2050 i fod yn garbon niwtral, ac fe ddylem fel dinas gyflawni hyn; yr oedd hefyd yn croesawu'r cynllun i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Bydd y gronfa tai gwag yn help i ddatblygu cartrefi da ac ymestyn ffiniau, fel bod trigolion yn ymfalchïo yn y lle maent yn byw.

Adleisiodd y Cynghorydd Rahman sylwadau ei gydweithwyr am wrando ar y trigolion. Bu llai o ymateb nag arfer i'r ymgynghoriad cyhoeddus, ond yr oedd gostwng y cynnydd yn nhreth y cyngor a thynnu'n ôl y ffioedd am wastraff heb fod yn wastraff cartref yn golygu bod y cyngor wedi gwrando. Ystyriodd y Cynghorydd Rahman yr heriau a wynebai'r cyngor: colli incwm a chostau ychwanegol oherwydd y pandemig. Yr oedd y ddinas wedi newid hefyd ers y Cyfrifiad diwethaf, ac yr oedd am i bawb fod yn rhan o'r Cyfrifiad. Yr oedd help ar gael o hyd i'r rhai yn y gymuned oedd mewn trafferthion. Yr oedd hon felly yn gyllideb y gallem fod yn falch ohoni, gan ei bod yn buddsoddi mewn cymunedau a seilwaith y ddinas.

Diolchodd y Cynghorydd Mayer i'r Arweinydd am ei chyflwyniad ardderchog, ac adleisiodd sylwadau'r Cynghorydd Truman. Byddai'r Cabinet a swyddogion cyllid yn canolbwyntio ar gyllideb y flwyddyn nesaf, gan edrych ymlaen yn wastad at fuddsoddi yng Nghasnewydd. Yr oedd y trigolion a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad am y ganolfan hamdden wedi dangos eu bod yn ymddiried yn y cyngor. Cyfarfu'r Cynghorydd Mayer hefyd gyda chynrychiolwyr yr undebau llafur fel o'r blaen, ac eleni nid oedd llawer o sylwadau gan y gwyddai'r gweithwyr fod y cyngor yn gwneud eu gorau i gyflwyno'r gyllideb orau bosib.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Cockeram at sylwadau'r Cynghorydd Harvey, a dweud y bu rhai sylwadau negyddol, ond ei fod yn ystyried y bu'n rhaid i'r cyngor weithio'n galed, a bod y gyllideb a ddeilliodd o hyn yn rhagorol. Ar y cyfan, ni chafwyd cymaint o sylwadau gan y trigolion, a rhaid bod hyn yn arwydd eu bod yn fodlon gyda'r hyn a gyflawnwyd.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Dirprwy Arweinydd am ei gyfarwyddyd, gan ychwanegu y dylai'r Cabinet ddiolch i'r Penaethiaid Gwasanaeth am orfod delio â'r a pandemig a chyllideb gynaliadwy, a diolchodd iddynt am eu gwaith ar yr adroddiad.

Diolchodd yr Arweinydd hefyd i'r tîm cyllid am eu gwaith ar fanylion y gyllideb hon er mwyn cyd-fynd â dyheadau pobl Casnewydd. Diolchodd yr Arweinydd i'r Prif Weithredwr am ei harweinyddiaeth ar yr agenda werdd ac adferiad cyfrifol i ddinasyddion Casnewydd.

**Penderfynwyd:**
Bod y Cabinet yn nodi/cytuno i'r isod:

**Cynigion y gyllideb a rhagfynegiadau'r tymor canol**

1. Nodi'r ymgynghori ffurfio ar y gyllideb a amlinellwyd yn adran 4 a'r adborth a dderbyniwyd, fel y gwelir yn atodiadau 1 i 4b.
2. Nodi'r grynodeb o asesiad effaith cydraddoldeb ar gynigion y gyllideb, yn atodiad 9.
3. Adolygu a chadarnhau cynigion y gyllideb (atodiad 5 - 6), fel y'u crynhoir yn y cynllun ariannol tymor canol (atodiad 7) a dyrannu'r hyblygrwydd ariannol a welir yn nhabl 5. Wrth wneud hynny, cytuno i weithredu'r rhaglen arbedion tymor canol llawn a defnyddio buddsoddiadau i arbed fel y nodir ym mharagraff 6.4 i weithredu arbedion fel rhan o'r gofyniad tymor canol am arbedion.
4. Cytuno gyda'r ffioedd a'r taliadau am 2021/22 i'r cyngor a ddangosir yn atodiad 11.
5. Nodi buddsoddiad y gyllideb mewn ysgolion o hyd at £4,937k, seiliedig ar ragdyb o godiad cyflog athrawon / NJC a darparu ar gyfer cynnydd wedi ei gyllido'n llawn yn y gofyniad cyllido yn ychwanegol at gost darparu ysgolion newydd ac ehangu'r rhai

presennol fel y nodir ym mharagraff 3.7 - 3.12. Yn benodol, cytunodd y Cabinet i gadarnhau hyn a'i roi ar ei ffurf derfynol pan geir sicrwydd am gyflogau athrawon o Fedi 2021 ymlaen gyda'r bwriad o leiaf o gadw'r amcan uchod, o fewn y ddarpariaeth arian sydd ar gael.

**Cyllideb refeniw gyffredinol a threth y cyngor am 21/22**

6. Nodi argymhellion y Pennaeth Cyllid y dylid cynnal isafswm balansau'r Gronfa Gyffredinol ar lefel o £6.5miliwn o leiaf, cadarnhau cadernid y gyllideb gyffredinol sy'n sail i'r cynigion, a digonoldeb yr arian wrth gefn yng nghyd-destun arian arall a glustnodwyd, a chyllideb refeniw wrth gefn o £1.5miliwn.
7. Nodi lefel gyfredol treth cyngor i Gyngor Dinas Casnewydd a gwerth ariannol gwahanol godiadau canrannol a sut y mae hyn yn cymharu â lefelau treth y cyngor mewn cynghorau eraill fel y gwelir yn nhabl 6.
8. Argymell cyllideb net gyffredinol a'r dreth cyngor sy'n deillio o hyn i'r Cyngor llawn, gan nodi y bydd cynnig ffurfiol gan gynnwys praeseptiau Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gwent a'r Cynghorau Cymuned yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor ar 3 Mawrth.
9. Cymeradwy gwariant a defnyddio arian wrth gefn yn unol â'r grynodeb yn atodiad 10b, gan nodi eu bod yn seiliedig ar gynigion manwl a adolygwyd gan y Cabinet yn eu cyfarfod yn Ionawr 2021 meeting.

6 **Cyfleuster Hamdden a Lles Arfaethedig**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Ym mis Rhagfyr, cytunodd y Cabinet i ymgynghori â'r cyhoedd am gynigion i godi cyfleuster hamdden a lles newydd oedd yn amgylcheddol gynaliadwy ac yn ynni-effeithlon ar safle tir llwyd sy'n edrych dros Afon Wysg, gan neilltuo tir presennol Canolfan Casnewydd i Goleg Gwent iddynt adleoli eu campws addysg bellach i ganol y ddinas.

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant i gyflwyno'r adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Harvey ei bod yn glir o dros 1,000 o ymatebion a gafwyd fod y cyhoedd wedi eu cyffroi gyda'r cynlluniau ac yn ymwneud â hwy.

Yr oedd adeilad presennol Canolfan Casnewydd yn ddioddef nifer o broblemau strwythurol a bod angen cryn fuddsoddiad i'w ddwyn i fyny i safonau heddiw.

Nid oedd yr adeilad yn effeithlon na chynaliadwy ac yr oedd newidiadau yn y galw dros y degawdau yn golygu na allai bellach gystadlu â chyfleusterau modern.

Yr oedd y cynlluniau a roddwyd gerbron yn cynnwys pwll hamdden modern gyda chyfleusterau newid i'r teulu, ystafell ffitrwydd a gardd do / to byw. Byddai mannau ymlacio mwy anffurfiol yn y cyfleuster hefyd, a byddai wedi ei gysylltu'n ddiwnïad i rwydwaith teithio llesol fydd yn ehangu.

Byddai codi cyfleuster newydd nid yn unig yn gadael i ni roi gwell profiad i'r defnyddwyr, ond hefyd yn rhyddhau tir i adleoli darpariaeth addysg bellach Coleg Gwent i ganol y ddinas, yn nes at y ddarpariaeth addysg uwch sydd yno eisoes.

Byddai'r cynigion yn dwyn mwy o bobl i mewn i ganol y ddinas ac yn helpu i gefnogi'r siopau a'r busnesau lletygarwch i adfer o effaith Covid.

Byddai'r prosiect yn costio £20M, ond dim ond £4.5M fyddai'n dod o gronfeydd y cyngor, sydd yn llai o lawer na chost adnewyddu'r ganolfan bresennol.

Byddai rhan fawr o'r prosiect yn cael ei gyllido o arbedion effeithlonrwydd o ganlyniad i weithio mewn cyfleuster modern fyddai'n denu mwy o bobl. Yr oedd y cyngor hefyd yn ceisio buddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru trwy eu Cronfa Adfywio a Buddsoddi wedi'i Thargedu.

Bu'r flwyddyn a aeth heibio yn heriol iawn, ond ni roesom y gorau i weithio trwy'r pandemig i wella'r ddinas a bywydau ein trigolion, yn enwedig o ran cefnogi canol y ddinas i ddychwelyd yn gryfach.

Ar sail yr adborth o'r ymgynghoriad, byddai swyddogion yn awr yn gweithio gyda'r Cabinet i ddatblygu cynlluniau manwl a chyflwyno'r prosiect hwn i'n trigolion.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

Nododd y Cynghorydd Mayer fod hwn yn brosiect, a'i fod wedi dychryn gyda'r niwed strwythurol i Ganolfan Casnewydd, ond yn falch ein bod mewn sefyllfa lle bydd gennym un o'r cyfleusterau hamdden gorau yng Nghymru ac o bosib yn y DU. Yr oedd 94% o'r trigolion yn meddwl y byddai codi canolfan hamdden newydd yn syniad da, a chytunai 85% y dylai Coleg Gwent fod yn rhan o'r Chwarter Gwybodaeth.

Yr oedd y Cynghorydd Davies yn tybio fod lefel yr ymateb gan y trigolion yn eithriadol. Yr oedd y Cyngor yn gwrando ar y trigolion, oedd yn rhan hanfodol o'r hyn a wnawn. Yr oedd yn berthnasol i rôl y Cynghorydd Davies fel Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy fod y cynllun yn gyfeillgar i'r amgylchedd ac yn cyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i leihau ei ôl troed carbon. Cyrhaeddwyd yr amcanion lles hefyd trwy gael cymunedau annibynnol a gwydn, yn ogystal ag ymestyn y Chwarter Gwybodaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Truman fod hyn yn newyddion gwych y byddai'r trigolion yn groesawu. Yr oedd yn benderfyniad call symud addysg bellach ac uwch i'r un fan, a byddai'n gyfle i adfywio'r ddinas, felly yr oedd yn croesawu'r adroddiad.

Adleisiodd y Cynghorydd Jeavons sylwadau ei gydweithwyr, gan ddweud bod hyn yn symudiad cyfrifol i ystyried adferiad a lles Casnewydd. Derbyniwyd 30 o atebion o Gymru, oedd yn gyffrous ac yn dangos ein bod yn gwneud rhywbeth oedd yn iawn i'r ddinas.

Nododd y Cynghorydd Rahman fod cefnogaeth amlwg i'r cyngor, a diolchodd i'r swyddogion am eu cyfraniad o ran cyflwyno'r prosiect hwn ar ben y gyllideb a drafodwyd, hen sôn am gefnogi busnesau bach. Dywedodd mai at hyn yr oedd treth y cyngor yn cyfrannu, a bod y ganolfan hamdden o les i ni oll.

Llongyfarchodd y Cockeram yr Arweinydd ar yr adroddiad ac ystyriodd fod y crynodeb yn amlygu'r amcanion yn glir; ni ddylem anghofio'r partneriaid eraill oedd yn rhan o'r prosiect hwn ac a oedd â ffydd ynom.

Dywedodd yr Arweinydd fod y prosiect yn cysylltu'n ddiwniad â'n gwaith teithio llesol, a diolchodd i'n partneriaid Coleg Gwent a Chasnewydd Fyw yn ogystal â diolch i Bennaeth Gwasanaethau'r Ddinas a Phennaeth Dros Dro Adfywio, Buddsoddi a Thai am eu gwaith caled a'u cyfraniad cyson.

**Penderfynwyd:**
Cytunodd y Cabinet i'r canlynol:

- Bwrw ymlaen a dylunio a chodi cyfleuster hamdden a lles newydd ar dir ehangu, yn amodol ar gael bob caniatâd angenrheidiol.
- Cymeradwyo'r arian cyfalaf a'r cyllid arfaethedig o £19.7 miliwn ar gyfer y cynllun.

- Symud safle Canolfan Casnewydd o ddarpariaeth Hamdden at ddibenion adfywio, a chytuno i waredu'r safle i Goleg Gwent trwy brydles ddatblygu 250-mlynedd ar bris net y farchnad, gan ystyried yr holl gostau dymchwel ac eraill a ganiateir, ac ar delerau ac amodau y cytunir arnynt gan y Pennaeth Cyfraith a Rheoleiddio a Chasnewydd Norse, yn amodol ar gael bob caniatâd angenrheidiol.
- Awdurdodi'r swyddogion i gytuno a chwblhau'r holl ddogfennau angenrheidiol am y cynllun a'r gwaredu.

7 **Ariannu Pont Gludo**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Yr oedd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi cymeradwyo cais y Cyngor am arian i atgyweirio ac adfer y Bont Gludo yn ogystal â darparu canolfan ymwelwyr newydd ym mis Rhagfyr. Yr oedd angen i'r Cyngor yn awr dderbyn hyn yn ffurfiol a chyflawni nifer o oblygiadau cyn i'r Gronfa Treftadaeth roi 'caniatad i gychwyn'. Y dyfarniad o 8.65 miliwn oedd y trydydd uchaf wnaed gan y Gronfa Treftadaeth yng Nghymru.

Yr oedd yr adroddiad yn ceisio caniatad i roi i'r Loteri Genedlaethol warant cytunedig am y £365k o gyllid cyfatebol nas cadarnhawyd yng nghyllideb y prosiect. Y cyllid nas cadarnhawyd oedd arian y disgwylid ei godi dros einioes y prosiect o godi arian uniongyrchol a cheisiadau pellach am grantiau am becynnau o arian i gynnal cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau. Byddai'r Cyngor yn atebol am uchafswm o £365k a byddai angen hyn yn unig pe na bai ceiniog yn fwy yn cael ei godi.

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant i gyflwyno'r adroddiad.

Yr oedd y Cynghorydd Harvey yn falch o roi gwybod am ganlyniad yr ymgynghori. Yr oedd y Bont Gludo yn rhan hanesyddol ac amlwg o Gasnewydd, a diolchodd i'r Rheolwr Diwylliant a Dysgu Parhaus am ei waith caled iawn, gan hyd yn oed oedi ei ymddeoliad er mwyn cwblhau'r prosiect.

Byddai cais cam 2 i Sefydliad Wolfson yn dilyn cais cam 1 llwyddiannus yn cael ei gyflwyno ddiwedd Chwefror. Cais oedd hwn am arian i helpu i gau'r bwlch presennol, nid am swm penodol.

**Pwyntiau allweddol**
Cyflwynodd tîm y prosiect gais i Lywodraeth Cymru am becyn cefnogaeth pellach o £1.5M trwy gynllun Cefnogaeth Buddsoddi Croeso Cymru. Yr oedd swyddogion Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn mynd trwy broses diwydrwydd dyladwy ac wedi dweud fod yr arian angenrheidiol yn eu cronfa gyfalaf. Yr oedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi datganiad i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol oedd yn rhoi digon o gefnogaeth i alluogi CTLG i wneud y dyfarniad. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddant yn rhoi gwybod am y canlyniad yn yr wythnos yn cychwyn 15 Chwefror, ond derbyniwyd nodyn ddydd Iau yn dweud na fyddai'r penderfyniad gweinidogol yn cael ei gymryd tan yr wythnos yn cychwyn 22 Chwefror. Serch hynny, yr oedd yn bwysig bwrw ymlaen i gadarnhau hyn gyda'r gwarantwr, am ei bod yn bwysig cael caniatad am ddau reswm:

1. Roedd y gwaith cyfalaf cysylltiedig ag atgyweirio'r Bont a'r ganolfan ymwelwyr newydd yn cael ei dendro, a byddai unrhyw oedi sylweddol yn debyg o gynyddu'r costau.
2. Y dyddiad targed ar gyfer ail-agor oedd Mawrth 2023. Yr oedd rhai trefniadau wrth gefn yn rhan o gynllun y prosiect, ond fe ddeuai cryn fudd o agor y bont ar ddechrau'r tymor.

Ni fyddai Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn rhoi caniatad i gychwyn hyd nes i Lywodraeth Cymru gytuno ar eu cyfran o'r cyllid.

Bydd y prosiect a gyllidir gan arian sylweddol o Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn caniatáu gwaith trwsio ac adfer i'r strwythur, ac yn ei sefydlogi. Bydd y ganolfan ymwelwyr newydd a'r cyfleusterau dehongli gwell yn rhoi cyfleusterau gwych i ymwelwyr ac yn caniatáu i'r Bont ddatblygu marchnadoedd twristiaeth newydd fyddai yn ei dro yn cyfrannu at gynaliadwyedd yn gyffredinol.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

Dywedodd y Cynghorydd Mayer nad oedd gwerth yn cael ei roi ar y Bont Gludo yn y pumdegau, ac nad oedd hyd yn oed yn cael ei chynnwys ar y murluniau yn y Ganolfan Ddinesig. Bu'n frwydr galed i gadw'r Bont Gludo ar yr agenda. Daethpwyd o hyd i'r cynlluniau gwreiddiol yn Archifdy Gwent ddwy flynedd yn ôl, oedd yn rhyfeddol. Soniodd y Cynghorydd Mayer fod hyn wedi llonni calon yr Aelod Cabinet dros Hamdden a Diwylliant, oedd yn hoff iawn o'r prosiect.

Adleisiodd y Cynghorydd Jeavons y sylwadau, a diolch i'r holl swyddogion yn ogystal â'r Aelod Cabinet am eu gwaith caled.

Soniodd y Cynghorydd Cockeram fod y goleuadau ar y Bont Gludo yn ychwanegu at nenlen Casnewydd ac yn rhoi hanes personol i Gasnewydd.

Dywedodd y Cynghorydd Truman fod y Bont Gludo yn DNA Casnewydd, ei bod yn eiconig ac yn ddarn cymhleth o beirianwaith. Diolchodd i Lywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri am eu cefnogaeth ariannol.

Soniodd y Cynghorydd Davies fod y Bont Gludo yn rhan annatod o Gasnewydd ac yr oedd yn falch fod y Cynghorydd Harvey, y Rheolwr Diwylliant a Dysgu Parhaus a'r holl swyddogion wedi gweithio mor galed i gadw'r bont i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau.

Adleisiodd y Cynghorydd Rahman sylwadau ei gydweithwyr.

Rhoddodd aelodau'r Cabinet eu hatgofion personol am y Bont Gludo dros y blynyddoedd, gan ddiolch eto i'r Cynghorydd Harvey a'r holl swyddogion am yr adroddiad cadarnhaol hwn.

Diolchodd yr Arweinydd hefyd i Gyfeillion Pont Gludo Casnewydd am eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad, a diolch hefyd i'r cyn-gynghorydd David Hando am ei ymroddiad cyson a'i waith caled, oedd wedi cyfrannu at adfer Pont Gludo Casnewydd.

**Penderfynwyd:**
Penderfynodd y Cabinet
i) Dderbyn y dyfarniad o £8.7 miliwn, yn amodol ar gadarnhad Llywodraeth Cymru o'r Grant Cefnogi Buddsoddiad Twristiaeth fel cyllid cyfatebol; a
ii) Rhoi gwarant cytunedig i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol am gyllid cyfatebol nas cadarnhawyd

8 **Ariannu Pont Gludo**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cabinet. Mae'r Ddyletswydd Cymdeithasol-Economaidd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod cyrff cyhoeddus penodol, wrth wneud penderfyniadau strategol fel pennu blaenoriaethau a gosod amcanion, yn cadw mewn cof yr angen i leihau anghydraddoldebau deilliannau o ganlyniad i anfantais cymdeithasol-economaidd.

Yr oedd anghydraddoldebau deilliannau yn cael eu teimlo amlycaf mewn meysydd fel iechyd, addysg, gwaith, safonau byw, cyfiawnder a diogelwch personol, a chyfranogi.

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy i gyflwyno'r adroddiad.

Yr oedd gan Lywodraeth Cymru y pwerau i weithredu'r rhan hon o'r Ddeddf, a bwriada wneud hynny ar 31 Mawrth 2021. Bwriad y ddyletswydd oedd ategu dyletswyddau statudol eraill, nid cymryd eu lle, fel , er enghraifft, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Nod cyffredinol y Ddyletswydd oedd cyflwyno gwell deilliannau i'r rhai oed dan anfantais gymdeithasol-economaidd trwy sicrhau bod y sawl oedd yn cymryd penderfyniadau strategol yn ymwneud â'r cymunedau perthnasol, yn croesawu herio a chraffu, ac yn sbarduno newid yn y ffordd mae penderfyniadau yn cael eu gwneud.
Yr oedd yr adroddiad i'r Cabinet yn cynnig camau yn y tymor byr a chanol i wreiddio'r Ddyletswydd yn effeithiol ar draws prosesau'r cyngor i wneud penderfyniadau. Yr oedd hyn yn cynnwys newid ein hasesiad effaith cydraddoldeb presennol, rhoi hyfforddiant i'r sawl sy'n cymryd penderfyniadau, ac ymgorffori mesurau priodol yn y fframweithiau sydd gennym i fonitro perfformiad.

**Pwyntiau Allweddol**
Yr oedd cysylltiadau agos rhwng y Ddyletswydd a'n Cynlluniau Strategol Cydraddoldeb a Lles, a'r cyfan yn anelu at leihau anghydraddoldeb i'n dinasyddion mwyaf bregus neu ddifreintiedig. Yr oedd hefyd yn cydnabod y tebygrwydd sy'n bodoli ar draws grwpiau sydd dan anfantais gymdeithasol-economaidd  a phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig; er enghraifft, gwyddom fod pobl BAME a phobl anabl hefyd yn fwy tebygol o ddioddef caledi ac anawsterau ariannol.

Yr ydym yn cydnabod effaith anfantais gymdeithasol-economaidd ar gyfloed a bywydau pobl o ran gwaith, iechyd a chyfranogi. Byddai'r Ddyletswydd yn sicrhau ein bod yn canoli ar y bobl hynny sy'n byw mewn tlodi yng Nghasnewydd, ac yn cymryd camau i leihau'r bwlch hwn, oedd yn bwysicach nag erioed, o gofio effaith COVID-19 ar ein cymunedau.

Yr oedd yr adroddiad yn amlygu pwysigrwydd gwreiddio'r Ddyletswydd yn ein prosesau i wneud penderfyniadau, osgoi tocenistiaeth, a sicrhau bod ein hymwneud â'r Ddyletswydd yn ystyrlon, gyda chanlyniadau cadarnhaol.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet fod a wnelo'r Ddyletswydd â phenderfyniadau strategol, a bod rheidrwydd ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar y lefel uchaf i gadw at hyn.

Anogwyd Aelodau'r Cabinet i ymgyfarwyddo â gofynion y Ddyletswydd a manteisio ar unrhyw hyfforddiant sydd yn cael ei gynnig.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

Bu'r Cynghorydd Mayer yn trafod gyda'r Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy am yr adroddiad a chytunodd fod Llywodraeth Cymru yn flaengar o ran cyflwyno'r Ddyletswydd, ac edrychai ymlaen at weld hyn ar waith er mwyn gwneud yn siŵr fod popeth fyddai'n cael ei wneud yng Nghasnewydd yn effeithio'n well ar y rhai difreintiedig na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd. Yr anhawster oedd gwreiddio hyn a deall nad rhywbeth ychwanegol oedd y Ddyletswydd ond y dylai fod yn ail natur i bawb.

Yr oedd y Cynghorydd Davies am ddiolch i'r swyddogion am eu gwaith caled a'u cefnogaeth i'r Cabinet er mwyn sicrhau y byddai'r Ddyletswydd Cymdeithasol-Economaidd yn cael ei gweithredu at y dyfodol.

**Penderfynwyd:**
Cymeradwyodd y Cabinet yr argymhellion yn yr adroddiad.

9 **Diweddariad Adferiad Covid-19**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan ddweud mai diweddariad oedd hwn ar ymateb y Cyngor a phartneriaid i argyfwng Covid-19 trwy gefnogi'r ddinas, yn fusnesau a thrigolion, i gydymffurfio â'r cyfyngiadau presennol, a'r cynnydd gyda Nodau Adfer Strategol y Cyngor.

Aeth blwyddyn heibio ers yr adroddiad cyntaf yn y DU am achosion o Covid-19 ac wyth wythnos (20 Rhagfyr 2020) ers i Gymru fynd i'r cyfyngiadau Lefel Rhybudd Pedwar presennol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf hon, gwelsom effaith Covid-19 ar ein teuluoedd, cymunedau, busnesau, ysgolion a gwasanaethau yn y ddinas.

Gwaetha'r modd, rydym wedi parhau i weld colli ein hanwyliaid oherwydd Covid, ond yr ydym hefyd wedi gweld dyfeisgarwch a gwytnwch ein cymunedau i gefnogi'r trigolion mwyaf bregus.

Wrth ymateb ac adfer o'r argyfwng hwn, gwnaethom gadarnhau pedwar Nod Adfer Strategol sy'n sicrhau y byddwn yn ymateb i anghenion ein cymunedau a'n busnesau yn awr ac yn y dyfodol.

- Nod Adfer Strategol 1 – Cefnogi Addysg a Chyflogaeth;
- Nod Adfer Strategol 2 – Cefnogi'r Amgylchedd a'r Economi;
- Nod Adfer Strategol 3 – Cefnogi Iechyd a Lles Dinasyddion, a
- Nod Adfer Strategol 4 – Cefnogi Dinasyddion wedi Covid-19.

Ers gweithredu'r cyfyngiadau Lefel Rhybudd Pedwar ym mis Rhagfyr, gwelodd Casnewydd a rhanbarth ehangach y de-ddwyrain ostyngiad yng nghyfradd achosion Covid-19.

Yr oeddem yn deall yr anhawster a achosodd y cyfyngiadau hyn ar fywyd normal, bod hynny yn ymweld â chyfeillion agos a theulu, plant yn mynd i'r ysgol, ymarfer yn ein campfeydd lleol, neu siopa yn y ddinas. Heb y cyfyngiadau hyn, er hynny, byddai'r gwasanaeth iechyd wedi ei chael yn anodd, a gallai llawer mwy fod wedi marw neu ddioddef effeithiau Covid a'i amrywiolion newydd.

Yr oedd cyflwyno'r brechiad gan y GIG yng Ngwent a Chymru wedi bod yn rhyfeddol, gyda mwy na 600,000 o bobl yn derbyn eu brechiad cyntaf yng Nghymru.

Yr oedd yr un mor bwysig yn awr ag ar ddechrau'r cyfyngiadau i ni barhau i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn gostwng y gyfradd achosion eto, a sicrhau y gallwn ddychwelyd i fywyd fel yr oedd.

Aeth yr Arweinydd ymlaen i ddweud ei bod yn siwr fod llawer o deuluoedd gyda phlant ifanc yn falch o weld y disgyblion ieuengaf yn dychwelyd i'r ysgol o heddiw ymlaen (22 Chwefror 2021).

Ers mis Rhagfyr, bu'n anodd i athrawon a rhieni gefnogi eu plant gyda dysgu gartref, ac i'r ysgolion gefnogi plant gweithwyr allweddol a'r rhai bregus.

Yr oedd yn bwysig i ni barhau i gefnogi ysgolion y ddinas i ddychwelyd yn ddiogel, a helpu'r plant hynny a ddioddefodd oherwydd y cyfyngiadau i ddal i fyny a gwneud iawn am unrhyw anfantais dros y flwyddyn a aeth heibio.

Effeithiwyd yn sylweddol ar yr economi yng Nghasnewydd a Chymru gan gyfyngiadau Covid. Bu'r flwyddyn ddiwethaf hon yn hynod anodd i siopau a masnachwyr ar y stryd fawr, busnesau bychain a chanolig, a'r sector lletygarwch / adloniant yn gweld llawer o bobl yn colli eu swyddi.

Fel yr amlygwyd yn yr adroddiad hwn, bu'r Cyngor a'u partneriaid (Casnewydd Fyw) yn rhoi cefnogaeth i helpu'r sawl a gollodd eu swyddi i ail-hyfforddi, dod o hyd i waith newydd a dysgu sgiliau newydd.

Hefyd dros y misoedd diwethaf, yr ydym wedi lansio ymgynghoriad (gyda Chasnewydd Fyw a Choleg Gwent) ar y datblygiad hamdden newydd a'r Coleg yng nghanol y ddinas; a derbyn £8.75 miliwn tuag at brosiect Trawsnewid y Bont Gludo gan Gronfa Treftadaeth y Loteri.

Aeth yr adroddiad ymlaen i amlygu'r gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd, yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau, a llwyddiannau Cyngor Casnewydd.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

Diolchodd y Cynghorydd Cockeram i reolwr gwasanaeth y rhaglen frechu a benodwyd i oruchwylio'r gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghanolfan Casnewydd, oedd yn eithriadol.

Ychwanegodd y Cynghorydd Harvey y dylem gofio ffigyrau Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chofio'r bobl hynny yng Nghymru fu farw: pwynt y cyfnod clo oedd amddiffyn pobl rhag hyn. Diolchodd y Cynghorydd Harvey i'r trigolion am ddilyn y rheolau, yn ogystal â'r gofalwyr a gweithwyr ysbyty fu'n gweithio mor galed.

Soniodd y Cynghorydd Jeavons nad oedd staff Cyngor Dinas Casnewydd yn gallu osgoi Covid, a bod rhai aelodau staff hefyd yn hunan-ynysu. Crybwyllodd waith caled staff Gwasanaethau'r Ddinas, yn y tywydd oer yn ddiweddar, gyda'r graeanwyr allan yn dal i gynnal y ffyrdd yng Nghasnewydd.

Diolchodd y Cynghorydd Truman i'r swyddogion iechyd amgylchedd a safonau masnach dan ei bortffolio ef, am eu gwaith caled cyson.

Diolchodd y Cynghorydd Davies i'r staff am baratoi'r adroddiadau misol hyn, a gofyn i'r trigolion eu darllen, gan eu bod yn rhoi manylion am yr hyn oedd yn cael ei wneud. Yr oedd yr hanes yn yr adroddiadau misol hefyd yn gofnod hanfodol bwysig at y dyfodol. Anogodd y Cynghorydd Davies bobl o bob cymuned, gan gynnwys cymunedau BAME, i gymryd y brechiad.

Diolchodd y Cynghorydd Mayer i Wasanaethau'r Ddinas am eu gwaith caled, a'r Gwasanaeth Gwastraff na roddodd y gorau iddi yn ystod y pandemig. Bu'r Hybiau Cymdogaeth hefyd yn cefnogi trigolion, a diolchodd i bawb a ddarparodd y gwasanaethau hyn.

Diolchodd yr Arweinydd yn bersonol i'r Prif Weithredwr am yr adroddiad a gwahodd ei sylwadau.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Arweinydd ac ychwanegu fod y gwaith a wnaed yn ystod y pandemig yn deyrnged i'r Uwch-Dîm Arweiniol a'r staff ar draws y cyngor. Ychwanegodd y Prif Weithredwr na fuasem lle'r ydym heddiw heb ymroddiad pob un o'r staff a ddangosodd y fath wytnwch emosiynol, yn enwedig gan staff hefyd yn agored i Covid. Nid busnes fel arfer oedd hyn, a bydd yn rhaid i ni fyw gyda'r firws am amser maith. Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, cydweithwyr mewn Cyllid, yn ogystal â'r rhai fu'n rhan o'r Prosiect Hamdden a'r Bont Gludo, gan ychwanegu ei diolch i Aelodau'r Cabinet a phob Pennaeth Gwasanaeth.

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan ddweud mai diweddariad oedd hwn ar ymateb y Cyngor a phartneriaid i argyfwng Covid-19 trwy gefnogi'r ddinas, yn fusnesau a thrigolion, i gydymffurfio â'r cyfyngiadau presennol, a'r cynnydd gyda Nodau Adfer Strategol y Cyngor.

Aeth dros flwyddyn heibio ers yr adroddiad cyntaf yn y DU am achosion o Covid-19 ac wyth wythnos (20 Rhagfyr 2020) ers i Gymru fynd i'r cyfyngiadau Lefel Rhybudd Pedwar presennol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf hon, gwelsom effaith Covid-19 ar ein teuluoedd, cymunedau, busnesau, ysgolion a gwasanaethau yn y ddinas.

Gwaetha'r modd, rydym wedi parhau i weld colli ein hanwyliaid oherwydd Covid, ond yr ydym hefyd wedi gweld dyfeisgarwch a gwytnwch ein cymunedau i gefnogi'r trigolion mwyaf bregus.

Wrth ymateb ac adfer o'r argyfwng hwn, gwnaethom gadarnhau pedwar Nod Adfer Strategol sy'n sicrhau y byddwn yn ymateb i anghenion ein cymunedau a'n busnesau yn awr ac yn y dyfodol.

- Nod Adfer Strategol 1 – Cefnogi Addysg a Chyflogaeth;
- Nod Adfer Strategol 2 – Cefnogi'r Amgylchedd a'r Economi;
- Nod Adfer Strategol 3 – Cefnogi Iechyd a Lles Dinasyddion, a
- Nod Adfer Strategol 4 – Cefnogi Dinasyddion wedi Covid-19.

Ers gweithredu'r cyfyngiadau Lefel Rhybudd Pedwar ym mis Rhagfyr, gwelodd Casnewydd a rhanbarth ehangach y de-ddwyrain ostyngiad yng nghyfradd achosion Covid-19.

Yr oeddem yn deall yr anhawster a achosodd y cyfyngiadau hyn ar fywyd normal, bod hynny yn ymweld â chyfeillion agos a theulu, plant yn mynd i'r ysgol, ymarfer yn ein campfeydd lleol, neu siopa yn y ddinas. Heb y cyfyngiadau hyn, er hynny, byddai'r gwasanaeth iechyd wedi ei chael yn anodd, a gallai llawer mwy fod wedi marw neu ddioddef effeithiau Covid a'i amrywiolion newydd.

Yr oedd cyflwyno'r brechiad gan y GIG yng Ngwent a Chymru wedi bod yn rhyfeddol, gyda mwy na 600,000 o bobl yn derbyn eu brechiad cyntaf yng Nghymru.

Yr oedd yr un mor bwysig yn awr ag ar ddechrau'r cyfyngiadau i ni barhau i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn gostwng y gyfradd achosion eto, a sicrhau y gallwn ddychwelyd i fywyd fel yr oedd.

Aeth yr Arweinydd ymlaen i ddweud ei bod yn siwr fod llawer o deuluoedd gyda phlant ifanc yn falch o weld y disgyblion ieuengaf yn dychwelyd i'r ysgol o heddiw ymlaen (22 Chwefror 2021).

Ers mis Rhagfyr, bu'n anodd i athrawon a rhieni gefnogi eu plant gyda dysgu gartref, ac i'r ysgolion gefnogi plant gweithwyr allweddol a'r rhai bregus.

Yr oedd yn bwysig i ni barhau i gefnogi ysgolion y ddinas i ddychwelyd yn ddiogel, a helpu'r plant hynny a ddioddefodd oherwydd y cyfyngiadau i ddal i fyny a gwneud iawn am unrhyw anfantais dros y flwyddyn a aeth heibio.

Effeithiwyd yn sylweddol ar yr economi yng Nghasnewydd a Chymru gan gyfyngiadau Covid. Bu'r flwyddyn ddiwethaf hon yn hynod anodd i siopau a masnachwyr ar y stryd fawr, busnesau bychain a chanolig, a'r sector lletygarwch / adloniant yn gweld llawer o bobl yn colli eu swyddi.

Fel yr amlygwyd yn yr adroddiad hwn, bu'r Cyngor a'u partneriaid (Casnewydd Fyw) yn rhoi cefnogaeth i helpu'r sawl a gollodd eu swyddi i ail-hyfforddi, dod o hyd i waith newydd a dysgu sgiliau newydd.

Hefyd dros y misoedd diwethaf, yr ydym wedi lansio ymgynghoriad (gyda Chasnewydd Fyw a Choleg Gwent) ar y datblygiad hamdden newydd a'r Coleg yng nghanol y ddinas; a derbyn £8.75 miliwn tuag at brosiect Trawsnewid y Bont Gludo gan Gronfa Treftadaeth y Loteri.

Aeth yr adroddiad ymlaen i amlygu'r gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd, yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau, a llwyddiannau Cyngor Casnewydd.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

Diolchodd y Cynghorydd Cockeram i reolwr gwasanaeth y rhaglen frechu a benodwyd i oruchwylio'r gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghanolfan Casnewydd, oedd yn eithriadol.

Ychwanegodd y Cynghorydd Harvey y dylem gofio ffigyrau Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chofio'r bobl hynny yng Nghymru fu farw: pwynt y cyfnod clo oedd amddiffyn pobl rhag hyn. Diolchodd y Cynghorydd Harvey i'r trigolion am ddilyn y rheolau, yn ogystal â'r gofalwyr a gweithwyr ysbyty fu'n gweithio mor galed.

Soniodd y Cynghorydd Jeavons nad oedd staff Cyngor Dinas Casnewydd yn gallu osgoi Covid, a bod rhai aelodau staff hefyd yn hunan-ynysu. Crybwyllodd waith caled staff Gwasanaethau'r Ddinas, yn y tywydd oer yn ddiweddar, gyda'r graeanwyr allan yn dal i gynnal y ffyrdd yng Nghasnewydd.

Diolchodd y Cynghorydd Truman i'r swyddogion iechyd amgylchedd a safonau masnach dan ei bortffolio ef, am eu gwaith caled cyson.

Diolchodd y Cynghorydd Davies i'r staff am baratoi'r adroddiadau misol hyn, a gofyn i'r trigolion eu darllen, gan eu bod yn rhoi manylion am yr hyn oedd yn cael ei wneud. Yr oedd yr hanes yn yr adroddiadau misol hefyd yn gofnod hanofodol bwysig at y dyfodol. Anogodd y Cynghorydd Davies bobl o bob cymuned, gan gynnwys cymunedau BAME, i gymryd y brechiad.

Diolchodd y Cynghorydd Mayer i Wasanaethau'r Ddinas am eu gwaith caled, a'r Gwasanaeth Gwastraff na roddodd y gorau iddi yn ystod y pandemig. Bu'r Hybiau Cymdogaeth hefyd yn cefnogi trigolion, a diolchodd i bawb a ddarparodd y gwasanaethau hyn.

Diolchodd yr Arweinydd yn bersonol i'r Prif Weithredwr am yr adroddiad a gwahodd ei sylwadau.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Arweinydd ac ychwanegu fod y gwaith a wnaed yn ystod y pandemig yn deyrnged i'r Uwch-Dîm Arweiniol a'r staff ar draws y cyngor. Ychwanegodd y Prif Weithredwr na fuasem lle'r ydym heddiw heb ymroddiad pob un o'r staff a ddangosodd y fath wytnwch emosiynol, yn enwedig gan staff hefyd yn agored i Covid. Nid busnes fel arfer oedd hyn, a bydd yn rhaid i ni fyw gyda'r firws am amser maith. Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, cydweithwyr mewn Cyllid, yn ogystal â'r rhai fu'n rhan o'r Prosiect Hamdden a'r Bont Gludo, gan ychwanegu ei diolch i Aelodau'r Cabinet a phob Pennaeth Gwasanaeth.

**Penderfynwyd:**
Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma a'r risgiau y mae'r Cyngor yn dal i'w hwynebu.

10 **Diweddariad Brexit**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cabinet. Dyma'r diweddariad i'r Cabinet ers y berthynas fasnach newydd rhwng y DU-UE ers 31 Rhagfyr 2020.

**<u>Y Diweddaraf am y Trafodaethau Masnach</u>**

- Ers adroddiad diwethaf y Cabinet (8 Ionawr 2021) yr oedd y Deyrnas Unedig yn swyddogol wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) a'r Farchnad Sengl.
- Yr oedd gan y DU a'r UE yn awr gytundeb masnach oedd yn galluogi masnachu rhydd o dariffau rhwng y ddwy ardal. Fodd bynnag, roedd yn rhaid i fusnesau'r DU a'r UE gydymffurfio â rheolau tollau newydd oedd yn mynnu bod mewnforwyr ac allforwyr yn llenwi dogfennau ychwanegol.
    - o Yn genedlaethol, yr oedd llawer o fusnesau wedi sôn am yr anawsterau wrth gwrdd â'r gofynion hyn, ac ambell waith, na lwyddwyd i gyflenwi nwyddau naill ai i'r DU neu'r UE.
- Nawr ein bod mewn perthynas newydd, mae'n bwysig fod Cymru, Casnewydd a'r rhanbarth yn gosod ei hun mewn sefyllfa fel y gall busnesau presennol ffynnu at y dyfodol; fod entrepreneuriaid newydd, cynhenid yn cael eu cefnogi, a'n bod yn gallu hyrwyddo buddsoddiad byd-eang newydd i'r ardal.
- Addawodd Llywodraeth y DU y byddai rhanbarthau ledled y DU gan gynnwys Casnewydd a De Ddwyrain Cymru yn derbyn buddsoddiad trwy fframweithiau newydd megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r drefn gymhorthdal arfaethedig.
- Fel gyda llawer tref a dinas yng Nghymru, yr oedd y bwlch rhwng y tlawd a'r cyfoethog yn lledu, a daeth hyn yn fwyfwy amlwg yn ystod y pandemig.
    - o Gydag unrhyw arian ychwanegol mae Cymru'n dderbyn trwy'r fframweithiau newydd, rhaid i ni sicrhau bod Casnewydd yn gallu defnyddio'r buddsoddiad hwn i alluogi cymunedau nid yn unig i 'godi'r gwastad' ond i sicrhau eu bod yn dod yn dod yn fwy gwydn a ffynnu yn y tymor hir.

- Daeth rheolau mewnfudo newydd i rym ar 1 Ionawr a roes ddiwedd ar symud rhydd rhwng y DU ac Ewrop.
- Bu Casnewydd erioed yn ddinas gynhwysol a bydd yn parhau i fod felly, lle mae croeso i bobl o bob cenedl fyw, gweithio a bod yn rhan o'n cymunedau sy'n cyfrannu at dwf cynaliadwy'r ddinas.
- I ddinasyddion yr UE, eu teuluoedd a chyfeillion sydd eisoes yn byw yng Nghasnewydd, yr oedd yn bwysig ymgeisio am Statws Sefydledig yr UE cyn y terfyn amser, 30 Mehefin.
    - o Mae gan wefannau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru yr holl wybodaeth angenrheidiol i helpu pobl i ymgeisio.
- Yr oedd yn dda hefyd gweld sut y bu'r Cyngor a'i bartneriaid dros y pedair blynedd ddiwethaf yn gweithio gyda chymunedau'r UE i gefnogi'r mwyaf bregus a gofalu fod pobl yn gallu ymgeisio.
- Fel y dangosodd yr adroddiad, yr oedd llawer o ddinasyddion yr UE yn wynebu rhwystrau ac ansicrwydd am eu hawliau, a phroblemau gelyniaeth. Fel cynrychiolwyr wardiau Casnewydd, yr oedd yn bwysig i ni gefnogi ein cymunedau, a bydd swyddogion y Cyngor a phartneriaid yn codi unrhyw faterion neu bryderon.
- Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at y ffaith y bydd y DU yn galluogi dinasyddion Hong Kong i wneud cais am fisas i fyw, gweithio ac astudio yn y DU. Gan fod Casnewydd yn ddinas amlddiwylliannol, y disgwyl oedd y buasem yn croesawu dinasyddion Hong Kong i'r ddinas.
    - o Yr oedd y Cyngor, ynghyd â'i bartneriaid amlasiantaethol mewn Tai ac Addysg eisoes yn ystyried pa gefnogaeth, adnoddau a gofynion fyddai eu hangen i helpu pobl i ymgartrefu yn ein cymunedau.

**<u>Cyfoesiad ar Gynnydd fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad</u>**

- Yn neufis cyntaf y trefniant newydd ni chrybwyllodd gwasanaethau Cyngor Casnewydd unrhyw broblemau a/neu bryderon cychwynnol o ran cyflenwi nwyddau a gwasanaethau.
- Fodd bynnag, fe wnaeth prisiau rhai nwyddau a gwasanaethau gynyddu, a byddai timau Caffael/Cyllid y Cyngor yn monitro'r effaith ar gyllidebau'r flwyddyn hon a'r flwyddyn nesaf.
- Nododd Cyngor Casnewydd un cynllun yn unig (Ysbrydoli i Lwyddo) oedd yn derbyn ei gyllid yn uniongyrchol o'r UE a byddai hwnnw'n cau yn naturiol ym mis Rhagfyr 2023. Wedi'r dyddiad hwn, byddai'r Cyngor yn cefnogi Llywodraeth Cymru gydag unrhyw fentrau newydd fyddai'n helpu pobl i fynd at yr hyfforddiant, cefnogaeth a'r gwaith yr oedd rhaglen Ysbrydoli i Lwyddo eisoes yn gynnig.
- Y mae tîm Cyfathrebu'r Cyngor yn dal i hyrwyddo cynllun Statws Sefydledig yr UE i drigolion ar y cyfryngau cymdeithasol (Facebook a Twitter) a gwefan y Cyngor ei hun.
- Yr oedd Gwasanaethau Rheoleiddio'r Cyngor yn cefnogi busnesau yng Nghasnewydd i gydymffurfio a gofynion newydd a sicrhau bod holl wiriadau Tystysgrif Iechyd yr UE yn cael eu cwblhau.
- Yn ychwanegol at y gwaith Cydlynu Cymunedol a amlygwyd yn gynharach, yr oedd y tîm yn parhau i gynnig cefnogaeth i bobl fregus a chymunedau nad oedd yn gallu cyrchu arian cyhoeddus. Byddai'r Cyngor hefyd yn cynnig grantiau bychan i fanciau bwyd/ sefydliadau y cafodd Covid a Brexit effaith arnynt.
- Mae'r tabl yn Atodiad 1 yr adroddiad yn rhoi manylion llawn am yr holl feysydd sy'n dod dan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

**Penderfynwyd:**
Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a nodi paratoadau Brexit y Cyngor.

11 **Rhaglen Waith**

Derbyniodd y Cabinet y rhaglen waith a gyfoeswyd